Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Gadwraeth a Saethu

12:00 Dydd Mercher 27 Tachwedd 2019
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Andrew RT Davies AC, Ceidwadwyr Cymreig - Cadeirydd
Russell George AC Ceidwadwyr Cymreig
Llyr Gruffydd AC, Plaid Cymru
Neil Hamilton AC, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig
Mark Isherwood AC, Ceidwadwyr Cymreig
Mandy Jones AC, Plaid Brexit Cymru
Richard Pritchard (Gweithiwr Achos i Caroline Jones AC, Plaid Brexit Cymru)
David Rowlands AC, Plaid Brexit Cymru

Steve Griffiths - Cyfarwyddwr Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yng Nghymru
George Carroll - Swyddfa Andrew RT Davies AC
Sian Smith - Swyddog Gwleidyddol Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yng Nghymru

Siaradwr gwadd
Christopher Graffius - Cyfarwyddwr Cyfathrebu Gweithredol Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Gwesteion
Liam Bell – Cadeirydd Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid
Philip Yapp - Yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt
Charles De Winton – Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Elliot ?- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Rhian Novoll-Philips – Cyfarwyddwr Cynghrair Cefn Gwlad Cymru (dros dro?)
Bernard Griffiths – Swyddog Polisi, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Ymddiheuriadau

Adam Price AC
Angela Burns AC

1. **Croeso gan y Cadeirydd, Andrew RT Davies AC**

   Croesawodd Mr Davies gydweithwyr, cymdeithion a gwesteion i'r cyfarfod ac aeth trwy'r rheolau cadw tŷ. Gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain a nodwyd bod angen Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

   Enwebodd Mandy Jones AC Andrew RT Davies yn Gadeirydd ac eiliodd Rhian Novoll-Philips hyn. Derbyniodd Mr Davies.
   Cynigiodd Rhian Novoll-Philips y dylid enwebu Steve Griffiths o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain i ddarparu ysgrifenyddiaeth ac eiliwyd y cynnig gan Charles De Winton. Derbyniodd Mr Griffiths.

2 (newid o eitem 3 ar yr agenda) **Trwyddedau meddygol - Diogelwch y cyhoedd a rôl meddygon yn y broses o gael trwyddedau ar gyfer arfau tanio**
Christopher Graffius, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Gweithredol Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Agorodd Christopher Graffius y cyfarfod trwy nodi bod trwyddedau meddygol yn fater o ddiogelwch i'r cyhoedd a'u bod er budd pawb. Argymhellir cael gwarant sy'n para am oes y drwydded yn ogystal â marciau ar drwyddedau fel y gellid cymryd camau gweithredu. Yna soniodd Christopher am dreialon Essex.
Dadleuodd pwyllgor Cymdeithas Feddygol Prydain yn erbyn ffioedd. Mae trwyddedu'n fater a gedwir yn ôl.
Gwnaeth Heddlu Gwent hi'n ofyniad i ymgeiswyr sy'n gofyn am dystysgrif i gael arf tanio neu wn saethu ddarparu tystysgrif feddygol gan eu meddyg teulu. Ni chafwyd cyhoeddusrwydd ynghylch y newid mewn polisi a gwnaed ymgeiswyr yn ymwybodol ohono trwy wefan yr heddlu saith wythnos ar ôl i'r newid gael ei wneud.
Daw'r gofyniad yn orfodol yn y flwyddyn newydd, ac ar yr adeg honno, bydd angen gwiriadau gorfodol ar holl heddluoedd Cymru.
Dywedodd Christopher Graffius fod y system newydd yn lleihau diogelwch ac mai dim ond ar y diwrnod y bydd yn rhoi cadarnhad yn hytrach nag unrhyw adeg wedi hynny. Nid oes angen gwarant sy'n para am oes yn y system newydd ac ni all yr heddlu ei gorfodi.
Mae Cymru yn achub y blaen ar yr hyn a fydd yn digwydd mewn gwledydd eraill. Mae diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu heb fod unrhyw ddyletswydd statudol i feddygon gymryd rhan, sy'n angenrheidiol. Bydd CG yn gofyn pam nad yw hyn wedi cael ei wneud.

Gofynnodd David Rowlands AC p'un a fydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno deddfwriaeth?

Yn ei ateb, dywedodd Christopher Graffius fod gan Gymru ddylanwad mewn perthynas â materion iechyd a'i fod yn bosibl y gallai fod yn gyfrifol am ddadflocio pethau yn hynny o beth.

Dywedodd Mandy Jones fod gan y Blaid Lafur yr holl bŵer yng Nghymru ac y gallant bleidleisio am unrhyw beth heb i unrhyw un eu herio.

Nododd Christopher Graffius y byddai Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain a sefydliadau partner yn lobïo Llywodraeth Cymru.

Mynegodd Richard Pritchard bryder y byddai meddygon sy'n gwrthwynebu saethu yn amddifadu pobl o gael trwyddedau trwy wrthod rhoi tystysgrifau meddygol iddynt.

Yn ei ymateb, dywedodd Christopher Graffius mai mater i'r heddlu a'r Llywodraeth oedd p'un a ddylid rhoi trwyddedau i bobl, ac nid meddygon. Dywedodd Christopher mai cost y gwiriad o gofnod meddygol a'r ymarfer ticio blwch hwn gan yr heddlu yw £30 - £40. Mae rhwystrau i saethu, megis cost tystysgrif feddygol, yn cael effaith ddifrifol a all arwain at lai o geisiadau a sgil-effeithiau i'r economi.

Nododd Neil Hamilton ei bod yn well gadael i Senedd San Steffan wneud penderfyniadau trwy'r Swyddfa Gartref, oherwydd gallai'r rheini sydd yn erbyn saethu o fewn Llywodraeth Cymru (e.e Cyfoeth Naturiol Cymru) gynnig gwelliannau yng Nghymru. Cytunodd NH â'r rhan helaeth o sylwadau Christopher Graffius.

Nododd Christopher Graffius fod ymgeiswyr Llafur wedi datgan eu bod yn cefnogi saethu, ond roedd yn cytuno mai'r ffordd orau o ymdrin â'r mater oedd trwy San Steffan.

Soniodd Charles De Winton am brofiadau pobl o gael eu harfau tanio wedi'u hatalfaelu a phwysleisiodd yr angen i bobl siarad â'i gilydd er mwyn helpu i atal problemau rhag codi. Cydnabu Christopher Graffius bwysigrwydd cyflawni dyletswydd gyhoeddus fel dinasyddion a nododd hefyd y byddai mwy o siawns o ddatrys problemau cyn iddynt godi pe bai marcwyr yn cael eu rhoi ar gofnodion meddygol.

Nododd Rhian Novoll-Philips y byddai etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal y flwyddyn nesaf, ac y byddai hynny'n gyfle i lobïo.

Mewn ymateb i hyn, nododd Christopher Graffius fod trwyddedau meddygol yn fater gweithredol ac nad yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymdrin â'r rheini.

Mynegodd Richard Pritchard bryder ynghylch effaith dirymu trwyddedau.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd Christopher Graffius y gellir adfer trwydded a nododd fel enghraifft y rhoddwyd iawndal i'r perchnogion a gollodd eu pistolau.

Dywedodd Elliot y gall y bygythiad o atalfaelu rwystro pobl rhag ceisio cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl.

Cam gweithredu Gofynnodd Andrew Davies am daflen o gyflwyniad Christopher Graffius - cytunodd Steve i'w hanfon ato o fewn y 7 diwrnod nesaf.

Nododd Andrew Davies nad oedd yn bosibl tynnu sylw at gofnodion cyn-filwyr heb gydsyniad. Mewn ymateb, dywedodd Christopher Graffius y byddai'r system newydd sy'n cael ei gweithredu yn caniatáu i gofnodion gael eu fflagio ac y gellir cael cytundeb fel rhan o'r cais am drwydded.

Dywedodd Andrew Davies fod y system yng Nghymru yn wahanol i Loegr, a allai fod yn broblem.

3 Newidiadau i drwyddedau cyffredinol
Steve Griffiths, Cyfarwyddwr Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yng Nghymru

Gwnaeth Steve gyflwyniad byr ar Hanes Trwyddedau Cyffredinol, sut yr oedd 'Wild Justice' wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r amrywiol gamau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cymryd ers hynny. Soniodd am sefydlu’r grŵp o randdeiliaid sy'n ddefnyddwyr ac am ba mor ddefnyddiol ydoedd.

Dywedodd Mandy Jones na allwn fod â hyder yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nododd Andrew Davies ei bod yn gadarnhaol iawn gweld bod wyth Aelod Cynulliad yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod.

Soniodd Liam Bell am deulu'r Brain a nododd fod nifer y Gylfinirod yn plymio. Maent yn hirhoedlog ac mae'r niferoedd yn cynnwys adar hŷn yn bennaf. Mae aros i gywion ac wyau i ddatblygu er mwyn iddynt amddiffyn Gylfinirod yn ei gwneud hi'n rhy hwyr ac nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrando ar y dystiolaeth.

Dywedodd Charles De Winton ei fod yn cytuno â phopeth a ddywedwyd ac nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd sylw o dystiolaeth wyddonol.

Tynnodd Philip Yapp sylw at y ffaith mai cadwraeth yw ei gylch gwaith a bod Trwyddedau Cyffredinol yn anymarferol. Nododd hefyd nad ydynt yn addas i ymdrin â theulu'r Brain ac erledigaeth bywyd gwyllt.

Nododd Mandy Jones na chymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb mewn perthynas â digwyddiad ger afon ym Mangor-is-y-coed a'r diffyg gwybodaeth sydd am yr hyn sydd mewn trwyddedau. Nododd Mandy fod pobl yn cael eu pasio yn ôl ac ymlaen ac y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru golli cenhedlaeth.

Cytunodd Andrew Davies â sylwadau Mandy Jones ynghylch pobl yn cael eu gwthio o bared i bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Awgrymodd Russell George y dylid gwneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion i ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Gadwraeth a Saethu.

Cam gweithredu Andrew RT Davies i wahodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion i'r cyfarfod.

Mark Isherwood yw'r hyrwyddwr ar gyfer Gylfinirod a soniodd am fynychu cyfarfod yn rhif 10 Stryd Downing, lle trafodwyd sut y gallai'r Gylfinir ddiflannu mewn 15 mlynedd. Problemau'n ymwneud â rheoli tir ac ysglyfaethwyr yw'r prif resymau am hyn. Mae'r Gweinidog yn cytuno i weithio gyda Gylfinir Cymru.

Soniodd Mandy Jones am achos llys yn ymwneud â physgotwr.

Dywedodd Llyr Gruffydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn honni bod ganddynt adnoddau digonol pan ofynnir iddynt a yw'r gyllideb yn sicr, ond nid ydym yn eu credu. Mae pobl dda yn gweithio yn Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â llwyth gwaith afrealistig na ellir ei gyflawni. Dylid gwahodd swyddogion a David Henshaw i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Gadwraeth a Saethu. Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn anwybyddu tystiolaeth, mae achos dros gynnal adolygiad barnwrol.

Dywedodd Andrew Davies fod saethu yn rhan bwysig o gadwraeth.

Dywedodd Neil Hamilton fod lle i’r pwyllgor gael cyfiawnhad gwyddonol dros yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. O ran trwyddedau cyffredinol, roedd gwleidyddiaeth wedi achub y blaen ar wyddoniaeth.

Soniodd Llyr Gruffydd fod sesiynau craffu cyffredinol ar waith Gweinidog yr Amgylchedd newydd gael eu cynnal. Disgwylir craffu ar waith Clair Pullman ym mis Ionawr/Chwefror.

Tynnodd Andrew Davies sylw at y ffaith bod tri tymor ar ôl ac y bydd craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr. Gofynnodd Mr Davies am gymorth gan yr holl sefydliadau partner a oedd yn bresennol gyda gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd.

Awgrymodd Mark Isherwood y dylid gwahodd Patrick Lindley i'r cyfarfod nesaf.

Nododd Christopher Graffius mai Liam Bell yw Cadeirydd Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid ac y gallai ddarparu gwybodaeth i Bwyllgor yr Amgylchedd.

Nododd Llyr Gruffydd y gall y pwyllgor ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf ac yna bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu i lywio'r llythyr.

Soniodd Mandy Jones fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru 14 i 17 diwrnod i ymateb.

Holodd Mr Pritchard ynghylch adolygiad a nododd fod y mwyafrif o bobl o amgylch y bwrdd yn teimlo nad yw trwyddedau cyffredinol yn ymarferol.

Mewn ymateb, nododd Steve Griffiths y cynhelir adolygiad y flwyddyn nesaf ac y byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal ym mis Ionawr i sicrhau bod popeth yn glir.

4 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Awgrymodd Andrew Davies y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol cyn hanner tymor mis Chwefror. Bydd y Cadeirydd yn pennu dyddiad a bydd yr ysgrifennydd yn dosbarthu’r wybodaeth.